Cofnodion Pwyllgor Cyllid Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd ar nos Fercher yr 11eg o Ionawr 2017 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 8.00yh.

Presennol: Y Maer y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Eifion Davies, y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Julia Jones, y Cyng. Carol Watts, y Cyng. Robert Jones, y Cyng. Edward Thomas, y Cyng. Geraint Price. Mr Roger Phillips (Clerc Tref) Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid) Mr Desmond Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Y Cyng. Carol Watts, y Cyng. Robert Jones, y Cyng. Rebecca Butcher, y Cyng. Owen James.

Cof 251 / Ion / 17 Datganiadau o Fuddiant. Dim.

Cof 252 / Ion / 17 Cyfrifon i'w talu

Cyfrifon i'w talu	Net	TAW	Cyfanswm
CGGC (Cyflogres Rhagfyr)	£ 20.25	£ 2.05	£ 24.30*
CGGC (Cyflogres Tachwedd)	£ 20.25	£ 2.05	£ 24.30*
Westward Heating (serfis boeler neuadd y sir)	£ 190.00	£ 38.00	£ 228.00*
Ffôn BT (du)	£ 52.11	£ 10.42	£ 62.53*
Morgan & Morgan (papur copi)	£ 12.45	£ 2.49	£ 14.94*
Morgan & Morgan (inc argraffydd swyddfa)	£ 48.21	£ 9.64	£ 57.85*
Un Llais Cymru (cwrs hyfforddi)	£ 35.00		£ 35.00*

Bacs - * Siec - #
Argymhellwyd bod y rhain yn cael eu talu. Cynigwyd gan y Cyng. Edward Thomas ac eiliwyd gan y Cyng. Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.

Cof 253 / Ion / 17 Incwm a dderbyniwyd ers y 1af o Ragfyr 2016 hyd yn hyn

Arian parod / sieciau	£ 100.00
Praesept CSG (3)	£ 18,767.33
Rhent Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed (3)	£ 3,219.33

Cof 254 / Ion / 17 Balansau'r Cyfrifon

Cyfrif Cyfredol CTLl (fel ar 05/ 1 /17)	£ 22,619.44
Cyfrif Cadw CTLl (fel ar 05 / 1 /17)	£ 1,879.53
Cyfrif Maer CTLl 'wedi cau' (fel ar 20/12/16)	£ 0.00
Cyfrif Maer CTLl (Barclays)	£
Bond Adnau Llog Uchel	£ 30,000.00

Cytunwyd bod y Bond Adnau Llog Uchel yn cael ei ail-fuddsoddi ar yr 20fed o Ionawr, am chwe mis arall.

Cof 255 / Ion / 17 Materion Ariannol Eraill

1.Ceisiadau am Gymorth Ariannol.

i) Clwb Rygbi Llandeilo.
Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod y Clerc yn gofyn i'r Clwb wneud cais i'r Gymdeithas Chwaraeon, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.
Gofynnwyd i'r Clerc i drosglwyddo unrhyw geisiadau yn y dyfodol gan glybiau chwaraeon yn uniongyrchol i'r Gymdeithas Chwaraeon.

ii) Apêl Pelydr X Ysbyty Dyffryn Aman.
Cynigodd y Cyng. Edward Thomas rodd o £100, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Carol Watts. Roedd pawb o blaid.

iii) Age Cymru Sir Gâr.
Cynigodd y Cyng. Julia Jones rodd o £100. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

Cof 256 / Ion /17 Gohebiaeth yn ymwneud â Chyllid

1. Nigel Davies, Trysorydd Clwb Rygbi Llandeilo, copi o'r archeb a osodwyd i brynu casyn diffibriliwr am £362.85. Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod y swm yn cael ei dalu, fel y cytunwyd eisoes. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Edward Thomas. Roedd pawb o blaid. Gofynnwyd i'r Clerc i gysylltu â Cariad i gael cyngor ar brynu mwy o ddiffibrilwyr ar gyfer y Dref.
2. Llywodraeth Cynulliad Cymru. Swm priodol yn unol ag Adran 137(4)(A) Y Terfyn Gwariant ar gyfer 2017-18 yw £7.38 fesul etholwr.

Cof 257/ Ion / 17 Goblygiadau Ariannol i Adroddiad y Swyddog Technegol

Byddai'r Swyddog Technegol yn darparu costau am y polion a gynigwyd ar gyfer y dathliadau Gŵyl Ddewi, ac fe fyddai'r Clerc yn darparu costiadau prynu baneri Cymru a Dydd Gŵyl Dewi. Gofynnwyd hefyd i'r Clerc gaffael amcan brisiau am gynhyrchu baner y Cyngor Tref yn arddangos Arfbais y Dref.
Gofynnwyd i'r Clerc i osod costiadau'r digwyddiadau Dydd Gŵyl Dewi ar Agenda Cyfarfod nesaf y Cyngor Llawn.

Cof 258 / Ion / 17 Doedd dim eitemau arall o fusnes roedd y Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn dymuno eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.45yh.